The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Zone 3M / Kite Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: awelymor@planninginspectorate.gov.uk

Gan ebost

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010112

Dyddiad: 11 Awst 2022

Annwyl Syr/Madam,

**Deddf Gynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) (PA2008) a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) (EPR) – Adran 88 a Rheol 6**

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

**Statws Unigolyn Arall mewn archwiliad**

O dan Adran 88(3) PA2008 a Rheol 6(1) y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, gall yr Awdurdod Archwilio wahodd unigolion eraill yr ystyriant eu bod yn briodol i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. At ddibenion gwybodaeth, anfonir at unigolyn a wahoddir i'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn y modd hwn, y llythyr Rheol 8 sy'n cadarnhau amserlen yr archwiliad, hefyd. Anfonir atynt yn ogystal unrhyw ddiwygiadau i'r amserlen honno o dan Reol 8(3) y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Dylech drin y llythyr hwn felly fel eich gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol a gynhelir ddydd Mawrth 20 Medi 2022, 10:00am yn Venue Cymru, Llandudno, Gogledd Cymru LL30 1BB. Cynhelir y Cyfarfod Rhagarweiniol ar Microsoft Teams hefyd fel digwyddiad cyfunol. Bydd cyfarwyddiadau llawn ynglŷn â sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu cyn y cyfarfod i'r rheiny sy'n cofrestru i gyfranogi. Bydd y llythyr 'Rheol 6' yn cael ei gyhoeddi ar 23 Awst 2022 ac fe'i hanfonir at bob parti â buddiant, sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am y digwyddiad. Darperir cadarnhad o'ch statws fel 'unigolyn arall' yn Atodiad B.

Yn bwysig, dylech wybod nad oes hawl awtomatig i unigolion eraill wneud sylwadau yn ystod yr archwiliad, gan nad oes ganddynt statws partïon â buddiant. Os byddwch yn dymuno gwneud sylwadau, fodd bynnag, dylech eu cyflwyno i'r Awdurdod Archwilio yn unol â'r terfynau amser priodol a bennwyd yn amserlen yr archwiliad. Gallwch wneud cais hefyd i siarad mewn unrhyw wrandawiadau. O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, mae gan yr Awdurdod Archwilio ddisgresiwn i ganiatáu i sylwadau gan

unigolion eraill, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gael eu darllen neu'u gwrando mewn cysylltiad â'r ymchwiliad.

Hefyd, gall unrhyw unigolyn, p'un a yw wedi cael ei wahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol neu beidio, wneud cais i fod yn barti â buddiant os yw'n bodloni'r meini prawf yn a102A PA2008. Os oes gennych fuddiant cyfreithiol yn y tir yr effeithir arno gan y cynllun, ac nad ydych eisoes wedi cofrestru i fod yn barti â buddiant, yna gallwch wneud cais i'r Awdurdod Archwilio i fod yn barti â buddiant o dan a102A PA2008.

Eich rhif cyfeirnod yw: AYMO-OP006

Os oes unrhyw gwestiynau gennych, neu os oes angen eglurhad arnoch ynglŷn â chynnwys y llythyr hwn, mae pob croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

*Jake Stephens*

**Jake Stephens**
**Rheolwr Achos**



disability confident EMPLOYER